



National  
Guidance

[oeapng.info](http://oeapng.info)

## Cydsyniad Rhieni

Yn aml, mae ennill cydsyniad rhieni a chasglu gwybodaeth angenrheidiol am gyfranogwyr ymweliad wedi cael ei wneud yr un pryd gan ddefnyddio'r un fecanwaith. Nid oes angen iddo ddigwydd fel hyn. Mae'r ddogfen hon yn rhoi sylw i gydsyniad: pwy all ei roi, pa bryd mae ei angen a sut i ddangos tystiolaeth ei fod wedi cael ei roi. Am ganllawiau ar ennill a defnyddio gwybodaeth am gyfranogwyr gweler dogfen 4.4j "Gwybodaeth am Gyfranogwyr a Diogelu Data".

Nid yw'n ofynnol i arweinwyr ymweliadau gludo tystiolaeth o gydsyniad ar ymweliadau yn y Deyrnas Unedig, ond gall hyn fod yn angenrheidiol mewn rhai gwledydd dramor, ac wrth groesi ffiniau gan gynnwys wrth adael y Deyrnas Unedig.

## Cyfrifoldeb Rhieni

Mae Adran Addysg Lloegr wedi cyhoeddi canllawiau ar ddeall ac ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb rhieni, gan gynnwys "pwy sy'n rhiant?" Gellir ei lawrlwytho o:

[www.gov.uk/government/publications/dealing-with-issues-relating-to-parental-responsibility](http://www.gov.uk/government/publications/dealing-with-issues-relating-to-parental-responsibility).

Mae'r canllawiau, sydd yr un mor berthnasol i sefydliadau heblaw ysgolion, yn datgan:

"Lle bo ar ysgolion angen cydsyniad rhieni i ymweliadau a gweithgareddau, dylai Prifathrawon geisio cydsyniad gan y rhiant preswyl [sef y rhiant sy'n byw gyda phlentyn] oni bai fod y penderfyniad yn debygol o gael effaith hirdymor a sylweddol ar y plentyn, neu fod y rhiant dibreswyl wedi gofyn i geisiadau am ganiatâd gael eu gofyn iddo ef neu hi ym mhob achos."

Mewn achosion lle mae'r sefydliad o'r farn ei bod yn angenrheidiol, neu y gofynnwyd iddo geisio cydsyniad gan y ddau riant, y peth gorau yw tybio nad yw cydsyniad wedi ei roi oni bai bod y ddau riant wedi rhoi cydsyniad. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y sefydliad wedi trin barn pob rhiant yn gyfartal. Bydd hefyd yn helpu diogelu sefyllfa'r sefydliad o safbwynt bod yn agored i unrhyw rwymedigaeth sifil bosibl lle, er enghraifft, caiff y plentyn ei anafu tra ar ymweliad.

Dylai sefydliadau osgoi ymwneud ag unrhyw anghytundeb rhwng rhieni. Lle nad yw rhieni yn gallu cytuno, gallai fod ar sefydliadau eisiau awgrymu bod y rhieni yn ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol ynghylch sicrhau gorchymyn llys yn pennu'n union pa benderfyniadau y gall pob rhiant eu gwneud ar ran y plentyn (Gorchymyn Mater Penodol neu Orchymyn Camau Gwaharddedig fel bo'n addas).

## Plant sy'n Derbyn Gofal

Weithiau gall fod anawsterau wrth gael sicrhau cydsyniad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, gofalwr maeth – er y gall gweithredu fel rhiant preswyl mewn rhai achosion olygu nad oes ganddynt yr awdurdod i roi cydsyniad ar gyfer ymweliad a gall fod oedi wrth iddynt geisio arweiniad gan y gwarcheidwad cyfreithiol (megis awdurdod lleol yn ei rôl fel rhiant corfforaethol). Dylai sefydliadau sicrhau bod Arweinwyr Ymweliadau yn sylweddoli hyn ac yn gwneud trefniadau addas ar gyfer hyn fel nad yw plant yn colli cyfleoedd. Er enghraifft: dylid caniatáu amser digonol i sicrhau cydsyniad; mae rhai sefydliadau yn cadw lleoedd yn gyfrinachol ar ymweliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i ganiatáu ar gyfer oedi posibl wrth sicrhau cydsyniad.

Dylai ysgolion sicrhau bod cyswllt rhwng eu Cydgysylltydd Ymweliadau Addysgol a'r Athro Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Yn achos plentyn yng ngofal awdurdod lleol, dylai fod cyswllt gyda Prifathro Ysgol Rhithiol a/neu Ymgynghorydd Addysg Awyr Agored yr awdurdod.

## Pa bryd mae Cydsyniad yn Ofynnol?

**Nid** yw'n ofynnol i ysgolion gael cydsyniad gan rieni er mwyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle sy'n digwydd yn ysgol oriau ysgol ac sy'n rhan arferol o addysg plentyn, megis astudiaethau lleol ac ymweliadau i amgueddfa neu lyfrgell etc. (Deddf Addysg 2002 adran 29).

Lle nad oes gan rieni'r dewis i dynnu eu plentyn allan o gwricwlwm yr ysgol, mae'r arfer dda rhoi gwybod i rieni bod ymweliad neu weithgaredd am ddigwydd (gweler yr adran "Rhoi Gwybod i Rieni" isod). Dylai ysgolion sylweddoli y gall gofyn am gydsyniad pan nad oes ei angen arwain at rai rhieni yn tybio y gallant wrthod cydsyniad, ac felly dynnu eu plentyn allan o ymweliad cwricwlwm pan nad yw hyn yn wir.

**Mae** angen cydsyniad ar gyfer pob ymweliad a drefnir gan sefydliadau heblaw ysgolion. **Mae** angen cydsyniad ar ysgolion ar gyfer ymweliadau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol a hefyd ar gyfer digwyddiad sy'n digwydd yn ystod, a'r tu allan, i oriau ysgol lle bernir ei fod yn ymwneud â lefel uwch o risg, megis ymweliad sy'n golygu taith hir neu weithgaredd antur.

Yn ogystal ag ennill cydsyniad am gymryd rhan mewn rhai ymweliadau, gall fod angen gofyn i rieni am gydsyniad arall, megis:

- Cydsyniad i blant dderbyn triniaeth feddygol frys, gan gynnwys gweini anaesthetig neu drallwysiad gwaed, pe digwyddai argyfwng lle na ellir cysylltu â'r rhieni;
- Cydsyniad i'r sefydliad rhannu data personol megis manylion cyswllt, gwybodaeth feddygol ac ymddygiadol gyda darparwyr trydydd parti (o dan delerau polisi preifatrwydd y sefydliad);
- Cydsyniad ar gyfer defnyddio ffotograffau o blant gan y sefydliad neu gan unrhyw ddarparwr;
- Cytundeb i unrhyw delerau ac amodau ariannol neu eraill.

## Ennill Cydsyniad

Mae dau wahanol fecanwaith i'w ystyried. Mae sut y defnyddir neu y cyfunir y rhain yn gyfan gwbl yn ôl mympwy'r cyflogwr neu'r sefydliad. Bydd rhai sefydliadau yn defnyddio cydsyniad untro, bydd yn well gan eraill ddefnyddio cydsyniad penodol i ymweliad, tra bydd eraill yn defnyddio cyfuniad. Pa bynnag ffordd y defnyddir y mecanweithiau, mae'n arfer dda sicrhau bod rhieni yn glir ynghylch (a) sut y ceisir eu cydsyniad pan fo yn ofynnol a (b) sut y rhoddir gwybodaeth iddynt ar ymweliadau.

Dylai cydsyniad fod yn benodol, gwybodus, diamwys ac yn cael ei roi'n rhydd gyda gweithred gadarnhau megis tic neu lofnod.

### 1. Cydsyniad untro neu gyffredinol

Mae Adran Addysg Lloegr (DfE) wedi paratoi ffurflen gydsynio untro i gael ei harwyddo gan y rhiant ar gofrestru eu plentyn mewn ysgol. Bwriedir y ffurflen hon ar gyfer pob mathau o ymweliadau a gweithgareddau lle bo cydsyniad rhieni yn ofynnol. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan DfE i sefydliadau eu mabwysiadu a'i haddasu fel bo'n briodol, ar:

[www.gov.uk/government/publications/consent-for-school-trips-and-other-off-site-activities](http://www.gov.uk/government/publications/consent-for-school-trips-and-other-off-site-activities).

Gellid defnyddio ffurflen debyg gan sefydliadau eraill megis darparwyr Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar a grwpiau ieuencid, neu ar gychwyn rhaglenni i bobl ifanc.

Mae cydsyniad untro neu gyffredinol yn darparu tystiolaeth fod rhieni wedi rhoi cydsyniad ymlaen llaw i bob ymweliad a gweithgaredd, lle mae eu cydsyniad yn ofynnol. Mae'n hanfodol fod cydsyniad cyffredinol o'r fath yn troi'n ganiatâd **gwybodus** cyn unrhyw ymweliad. Felly, lle defnyddir cydsyniad untro, rhaid rhoi gwybodaeth i rieni am yr ymweliad a chyfranogiad arfaethedig eu plentyn, a chael y cyfle i dynnu eu cydsyniad yn ôl pe na baent yn dymuno iddynt gymryd rhan. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r trefniadau gweinyddol. Gellid defnyddio manylion yr ymweliad i rieni i'w hatgoffa o gydsyniad a roddwyd yn flaenorol a rhoi cyfle i ddiweddarau gwybodaeth cyfranogwyr.

Pan ddefnyddir darparwr trydydd parti, dylai rhieni gael gwybod am y darparwr. Gellid gwneud hyn trwy rhoi cyfeiriad gwefan y darparwr a thynnu sylw at adrannau perthnasol (ee gwybod a anelir at gyfranogwyr a rhieni, a pholisi preifatrwydd y darparwr).

Bydd ar ymweliadau sy'n golygu tâl, neu sy'n cynnwys telerau talu neu ganslo, angen cytundeb gan rieni i'r trefniadau ariannol ac felly gallai fod yn well cael caniatâd penodol ar eu cyfer.

### 2. Cydsyniad penodol-i-ymweliad

Er y gellir defnyddio cydsyniad untro ar gyfer llawer o ymweliadau, mae sefyllfaoedd lle mae angen cydsyniad am ymweliad penodol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Ymweliadau â gwledydd sy'n gofyn am brawf o gydsyniad rhieni;
- Ymweliadau lle mae angen cytundeb am dâl neu delerau ac amodau eraill;
- Pan benderfynir defnyddio ffurflen gydsynio darparwr (gweler isod).

## Ffurflenni Cydsyniad Darparwyr

Mae rhai darparwyr trydydd parti yn darparu ffurflenni i sefydliadau eu cyflwyno i rieni eu cwblhau a'u harwyddo. Yn aml, mae'r rhain wedi eu llunio i roi gwybod i rieni am y ddarpariaeth ac i sicrhau bod y darparwr yn derbyn yr holl wybodaeth mae arno'i angen am gyfranogwyr er mwyn sicrhau eu llesiant. Fodd bynnag, dylid ystyried yn ofalus cyn defnyddio ffurflenni o'r fath.

Ni ddylid defnyddio ffurflenni darparwyr os ydynt yn cynnwys unrhyw gytundeb rhwng rhieni a'r darparwr: er enghraifft, os ydynt yn cynnwys unrhyw ymrwymiad ariannol, telerau ac amodau neu hawlildiadau. Dylai pob trefniant contract o'r fath fod rhwng y sefydliad a'r rhieni, neu rhwng y sefydliad a'r darparwr, nid yn uniongyrchol rhwng y rhieni a'r darparwr. Gweler dogfen 3.2i "Contractau a Hawlildiadau".

Nid yw'n angenrheidiol i ddarparwyr dderbyn cydsyniad rhieni yn uniongyrchol. Mae'n ddigonol iddynt wybod bod y sefydliad wedi sicrhau caniatâd i blant gymryd rhan yng ngweithgareddau'r darparwr.

Mewn achosion lle mae gan y sefydliad eisoes wybodaeth gyfoes lawn am gyfranogwyr, gallai gael ei deimlo fel baich diangen gofyn i rieni ddarparu'r un wybodaeth ar ffurflen darparwr.

Gallai sefydliadau felly benderfynu defnyddio'u systemau eu hunain i gael cydsyniad rhieni a gwybodaeth am gyfranogwyr, a throsglwyddo'r hyn sy'n addas i'r darparwr. Boed ffurflen darparwr yn cael ei defnyddio neu beidio, mae'n hanfodol fod darparwyr gallu cael yr holl gwybodaeth am gyfranogwyr y mae arnynt ei angen: gweler dogfen 4.4j "Gwybodaeth a Gyfranogwyr a Diogelu Data".

## Diogelu Data a Ffotograffiaeth

Gellir cofnodi cydsyniad ar bapur (ee ffurflenni cydsyniad untro neu benodol-i-ymweliad, slipiau i'w torri i ffwrdd ar lythyrau) neu'n electronig (gweler isod). Pa bynnag ffordd y caiff cydsyniad ei gofnodi, mae'n debygol i gynnwys data personol sy'n destun cyfraith diogelu data. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r ffordd gywir o storio a chadw'r wybodaeth hon.

Dylai cydsyniad rhieni i'r defnydd o ddata personol gael ei seilio ar bolisi preifatrwydd y sefydliad, a ddylai nodi'r dibenion y defnyddir y data ar eu cyfer.

Caiff ffotograffau lle gellir adnabod unigolion eu hystyried fel data personol mewn cyfraith. Os yw sefydliad yn bwriadu defnyddio ffotograffau plant, neu ganiatáu sefydliad arall megis darparwr gweithgareddau i ddefnyddio ffotograffau o'r fath, yna rhaid iddo sicrhau cydsyniad penodol rhieni i wneud hynny. Yr unig eithriad yw pan fo ffotograffau i'w defnyddio ar gyfer diogelwch yn unig (ee CCTV), rhywbeth sy'n rhaid ei esbonio mewn, er enghraifft, hysbysiad preifatrwydd.

Am ganllawiau pellach gweler dogfen 4.4j "Gwybodaeth am Gyfranogwyr a Diogelu Data".

## Cydsyniad Electronig

Pan fod mesurau diogelwch addas ar waith, gall rhieni roi cydsyniad yn electronig – ee trwy e-bost, neges destun neu system ar-lein trwy wefan neu ap. Pa bynnag system a ddefnyddir, dylai alluogi rhieni i gadarnhau a ydynt wedi cael yr wybodaeth lawn; cofnodi pa bryd a chan bwy y rhoddwyd cydsyniad; a dylai alluogi cydsyniad i gael ei roi gan bawb o'r rhieni sydd â chyfrifoldeb rhieni os oes angen. Dylai systemau alluogi cysylltiad uniongyrchol rhwng cydsyniad a gwybodaeth am yr ymweliad.

Lle nad yw'n bosibl i rieni ddiweddarau a chadarnhau gwybodaeth fel rhan o'r broses gydsynio, byddai'n synhwyrol cynnwys datganiad fel: "Byddaf yn rhoi gwybod i'r sefydliad am unrhyw newidiadau i gyflwr meddygol neu anghenion unigol fy mhlentyn (gan gynnwys unrhyw faterion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl a all effeithio ar eu gallu i gymryd rhan yn yr ymweliad), ac unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt mewn argyfwng."

Pan gaiff cydsyniad electronig ei gyflwyno ar-lein, dylai fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau fod y cydsyniad yn wir a dibynadwy. Os rhoddir cydsyniad trwy e-bost neu neges destun, dylid defnyddio'r cyfeiriad e-bost neu'r rhif ffôn symudol a roddwyd gan y rhieni i'r sefydliad. Dylai hyn gael ei gymryd yn uniongyrchol i system reoli gwybodaeth y sefydliad, lle mae system o'r fath ar waith.

Mae sefyllfaoedd lle gallai fod yn rhaid ichi ddarparu dystiolaeth o gydsyniad rhieni i drydydd partïon, er enghraifft wrth deithio dramor neu wrth ymdrin â gweithwyr proffesiynol meddygol. Os ydych chi'n defnyddio cydsyniad electronig, dylech ystyried sut y byddech yn darparu tystiolaeth o'r fath os bydd angen.

## Teithiau Tramor

Mae materion penodol i'w hystyried ynghylch cydsyniad rhieni wrth deithio dramor. Gweler dogfen 4.3d "Teithiau Tramor".

## Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw a Chydberthynas

Mae gan rieni hawl i gadw eu plant draw o wersi Addysg Grefyddol, o ddefodau addoli torfol ac o rai elfennau o Addysg Rhyw a Chydberthynas, ond nid o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Golyga hyn nad oes gan rieni o angenrheidrwydd yr hawl i gadw eu plentyn draw o ymweliad ag, er enghraifft, man addoli, os yw'r ymweliad hwn yn ffurfio rhan o waith yr ysgol wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n bwysig felly i arweinwyr ymweliadau fod yn glir ynghylch diben yr ymweliad, gan gynnwys y buddion personol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach a'i gysylltiad â'r cwricwlwm.

## Rhoi Gwybod i Rien

Mae'n ofynnol i ysgolion gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys i'w disgyblion ac mae dealltwriaeth gyffredinol na ellir gwneud hyn yn effeithiol heb wneud defnydd llawn o'r amgylchedd lleol a'r gymuned y mae'r ysgol o'u mewn. Dylai ymweliadau a gweithgareddau cwricwlwm rheolaidd ac aml, oddi ar safle'r ysgol, felly fod yn rhan arferol o'r drefn a byddai'n afresymol i ysgolion roi gwybod i rieni am bob taith

benodol. O ran yr ymweliadau hyn, nad oes angen cydsyniad rhieni ar cyfer, mae'n arfer dda rhoi gwybod i rieni, efallai pan fyddant yn cofrestru eu plentyn, neu'n flynyddol trwy brosbectws, dogfen bolisi neu wefan, am y ffordd mae'r ysgol yn defnyddio'r amgylchedd lleol a'r ffaith na fydd eu plentyn ar safle'r ysgol bob amser ond y gallai fod yn dysgu yn rhywle arall yn y gymuned ehangach.

Lle mae cydsyniad yn ofynnol, yr allwedd yw rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cyfranogiad eu plentyn. Gellir rhoi gwybodaeth o'r fath mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan y bydd yr wybodaeth sydd ei hangen gan rieni yn dibynnu ar natur a chymhlethdod yr ymweliad. Er enghraifft, gall gemau chwaraeon neu ymweliadau diwylliannol olygu gwybodaeth yn cael ei rhoi am y tymor ymlaen llaw gyda rhieni yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i hyn wrth iddynt ddigwydd, efallai trwy nodyn, galwad ffôn, e-bost, testun etc. Am ymweliadau mwy cymhleth bydd angen llythrau gwybodaeth penodol, ac i'r ymweliadau mwyaf cymhleth neu anturus efallai mai cyfuniad o wybodaeth ysgrifenedig a chyfarfodydd briffio/gwybodaeth fyddai fwyaf addas.

Mae'n anochel y bydd cyfleoedd munud olaf yn cyrraedd am gyfleoedd dysgu cyffrous a dylai'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu gyda rhieni ac ennill cydsyniad gwybodus gefnogi'r rhain. Mae cydsyniad ar lafar trwy alwad ffôn yn gwbl dderbyniol mewn sefyllfa o'r fath (a phan nad yw rhieni yn gallu rhoi cydsyniad yn ysgrifenedig) ond byddai'n ddoeth naill ai cofnodi'r alwad neu nodi ei hamser a dyddiad, pwy a'i gwnaeth a geiriad unrhyw sript y gwnaethant eu defnyddio, a phwy a roddodd y cydsyniad.

Gan ddibynnu ar natur yr ymweliad, gallai fod angen i wybodaeth i rieni gynnwys:

- Diben yr ymweliad;
- Manylion ymarferol fel dyddiadau, amserau, a'r dillad ac offer sydd eu hangen;
- Costau a thelerau canslo;
- Manylion yr holl weithgareddau sydd ynghlwm;
- Natur y goruchwylio, ac unrhyw gyfrifoldeb sydd gan y plant am eu hiechyd a diogelwch eu hunain;
- Trefniadau darparu ar gyfer anghenion arbennig ac anabledau;
- Gwybodaeth am unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a gynllunir;
- Manylion unrhyw baratoi cyn yr ymweliad lle mae angen i rieni gymryd rôl weithredol;
- Disgwyliadau ymddygiad a chosbau;
- Trefniadau ar gyfer anfon plant adref yn gynnar (pe digwyddai ee salwch neu gamymddygiad) a sut y telir unrhyw gostau;
- Manylion ar sut y gall rhieni gysylltu ag arweinwyr pe digwyddai argyfwng yn y cartref.

